

EAMES, WILLIAM (1874 - 1958), newyddiadurwr

Enw: William Eames
Dyddiad geni: 1874
Dyddiad marw: 1958
Priod: Jane Myfanwy Eames (née Hughes)
Rhiant: Margaret Eames (née Dowell)
Rhiant: Griffith Eames
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Evan David Jones

Ganwyd ym Mhrestatyn, Fflint, 1874, yn fab i Griffith Eames a'i wraig Margaret (ganwyd Dowell) o Brestatyn. Saer oedd y tad a fwriodd ei brentisiaeth yn Lerpwl wedi cyfnod ar y tir yn ei fro enedigol yn sir Fôn. Ymsefydlodd yn Barrow-in-Furness ac yno fel cydgantorion yng nghôr [Peter Edwards](#), 'Pedr Alaw') y cyfarfu'r ddau. Mynnodd y fam ddychwelyd i Brestatyn er mwyn geni'r plentyn yng Nghymru, ond yn Barrow y magwyd ef am ddwy flynedd. Yna symudodd y teulu i Faes-y-Groes, Prestatyn, ac yn ysgol yr eglwys y cafodd William Eames ei addysg nes ei fod yn 12 oed a mynd i weithio gyda'i dad, ond pan oedd yn 17 oed aeth yn ddisgybl-athro yn ysgol Frytanaidd newydd Prestatyn. Ym mis Hydref 1894 yr oedd yn un o fyfyrwr cyntaf adran addysg Coleg y Brifysgol ym Mangor, a bu yno am ddwy fl. Ar ddiwedd ei gwrs cymerodd swydd athro cynorthwyol mewn ysgol Wesleaidd yn Dartford, Caint, lle y treuliodd ddwy fl., a dechrau ysgrifennu i'r papurau - *Illustrated Bits* a *Sketchy Bits* ac i *Young Wales* [John Hugh Edwards](#). Symudodd i ysgol yn Surbiton ac ar ôl dwy flynedd derbyniodd, yn 1900, swydd yn ysgol fwrdd Caernarfon. Yno dechreuodd ddefnyddio Cymraeg yn y gwersi yn groes i'r traddodiad a chael cefnogaeth Arolygwr ei Mawrhydi. Yng Nghaernarfon daeth i gysylltiad agos â hoelion wyth newyddiaduraeth Gymraeg, e.e. R. Gwynedd Davies, o dan [John Davies](#), 'Gwynedd'), [Beriah Gwynfe Evans](#), [Daniel Rees](#), [T. Gwynn Jones](#), a John R. Lloyd Hughes, y cartwnydd (ei frawd-yng-nghyfraith yn ddiweddarach). Ac yntau wedi ymddiddori mewn ysgrifennu i'r wasg nid rhyfedd yn awyrgylch Caernarfon iddo gael ei atynnu gan newyddiaduraeth. Dewisodd Ab Gwynedd Davies ef i ysgrifennu erthygl flaen a nodiadau'r wythnos i'r *North Wales Observer* yn ei le tra byddai ef yn treulio tri mis yn America yn 1902. Ym mis Medi y flwyddyn honno ffarweliodd â'r ysgol i ddilyn ' [Eifionydd](#) ' (John Thomas, 1848 - 1922) fel golygydd *Y Genedl*, a chadwodd y gadair tan ddiwedd 1907, pryd y cafodd ei ddewis yn un o isolygyddion i'r *Manchester Guardian* a dechrau ar ei waith ym Manceinion ym mis Ionawr 1908. Yn 1916 penodwyd ef yn ysgrifennydd ariannol i'r Manchester Stock Exchange, ond cadwodd gysylltiad â'r *Guardian*. Yn 1919 cafodd ei wneud yn ysgrifennydd yr Exchange. Yn 1920 penderfynodd ef a meibion C.P. Scott sefydlu wythnosolyn masnachol - y *Manchester Guardian Commercial Supplement* a ymddangosodd ym mis Mehefin y flwyddyn honno, a throi'n llwyddiant diamheuol gyda'i atodiadau a ddaeth yn boblogaidd ym myd masnach, a pharhau tan 1939. Yn yr wythnosolyn hwn y rhoddwyd hysbysrwydd i syniad Charles Tonge o osod llinellau gwyn i reoli trafnidiaeth ar y ffordd. Yn 1931 dychwelodd i Gymru ac ymsefydlu ym Mhrestatyn a dechrau darlledu o stiwdio Bangor. Yn 1940 penodwyd ef gan Syr John Reith yn swyddog y wasg i'r Weinyddiaeth Hysbysrwydd, a symudodd i Gaerdydd lle y daeth yn gyfeillgar â [D.T. Davies](#) a [Chaleb Rees](#), arolygwyr ysgolion, a darlledu'n rheolaidd o Gaerdydd. Yn 1947 gwnaed ef yn M.B.E.

Priododd, 25 Gorffennaf 1902, â Jane Myfanwy Hughes (chwaer [Howel Harris Hughes](#)), awdur *Llyfr prydiau bwyd* (1932), a hi oedd ' Megan Ellis ', golygydd tudalennau'r merched yn y *Ford Gron*. Clywyd hithau ar y radio o Fangor a Chaerdydd hefyd. Yr oeddynt yn gydawduron y nofel *Melin y ddôl* (1948). Bu farw William Eames ym Mae Colwyn 29 Medi 1958. Bu ei wraig farw yng Nghaerdydd 23 Mehefin 1955.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Y Genhinen 10-15, 1959-65

Prestatyn Weekly, 4 Hydref 1958

Mynegeion cofrestrï geni, priodi a marw Cymru a Lloegr yr 'Office of Population and Census Studies' marwolaethau Hydref-Rhagfyr 1958

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734592](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734592)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

